


Mae pobl wedi bod yn trigo yn Wrexham ers y Cyfnod Neolithig, tua **3,000 CC**, gan wneud crochenwaith, defnyddio bwyelli cerrig a gweithio gyda fflint. Fe wyddom am hyn oherwydd gwaith cloddio archeolegol yn Chwarel Borrás.



Ax Llaw

Mae teithio'n ôl mewn amser i'r cyfnod cynhanesyddol, miloedd ar filoedd o flynyddoedd yn ôl, yn gallu bod yn eithaf brawychus. Ond, paid â phoeni, bydd y gweithgareddau isod yn dy helpu di ddeall cronoleg ac amser. Trefn gronolegol ydi rhestr o ddigwyddiadau yn y drefn y digwyddon nhw. Maen nhw'n aml yn cael eu cofnodi fel llinell amser.

Mae'r cyfnod cynhanesyddol yn gyfnod cyn unrhyw gofnod ysgrifenedig ac mae'n ymestyn dros filoedd o flynyddoedd gan orffen gyda goresgyniad y Rhufeiniad yn 43 OC. Caiff y cyfnod cynhanesyddol ei rannu gan y prif dechnolegau a oedd yn cael eu defnyddio ar y pryd - cerrig, efydd ac yna haearn.



RHO DÂP MESUR AR Y LLAWR

Os oes gennyt ti dâp mesur 10 metr yna gall gynrychioli 10,000 o flynyddoedd, gyda phob metr yn cynrychioli 1,000 o flynyddoedd, pob 10cm yn cynrychioli 100 mlynedd a phob centimetr yn cynrychioli degawd

10M = 10,000 MLYNEDD

1M = 1,000 MLYNEDD

10CM = 100 MLYNEDD

1CM = 10 MLYNEDD

Edrycha ar ein llinell amser isod ac ychwanega rubanau, llinynnau neu lliwia'r llinellau i gynrychioli'r cyfnodau amser gwahanol. Ddaru'r newidiadau mewn technoleg a diwylliant ddim digwydd dros nos, fe ddigwyddon nhw'n raddol, yn arbennig yn ystod y cyfnod cynhanesyddol, felly bydd rhai o'r rhubanau, llinynnau neu'r lliwiau yn

gorgyffwrdd. Neu, syniad arall, beth am ddefnyddio'r lein ddillad fel llinell amser a rhoi pegiau i ddynodi'r cyfnodau gwahanol? Mae rhubanau a llinynnau yn gweithio'n dda hefyd.

Mi fedri di hefyd ychwanegu cymeriadau Lego, tynnu lluniau o dy hoff wrthrychau hanesyddol neu ddefnyddio teganau neu unrhyw beth arall sydd gennyf ti wrth law.

GREU DY LINELL AMSER DU HUN

Beth am greu dy linell amser du hun? Gall ganolbwyntio ar dy hoff gyfnod hanesyddol e.e. y Rhufeiniad, neu beth am wneud llinell amser o dy fywyd di? Mi fedri di ychwanegu ffotograffau, teganau neu luniau sy'n bwysig i ti.

CYFNOD NEOLITHIG: 4,000 - 2,000 CC

YR OES EFYDD: 2,300 - 800 CC

OES YR HAEARN: 800 CC - 43 OC

RHUFENIAD: 43 - 409 OC

EINGL-SACSONAIDD: 410 - 1066

LLYCHLYNWWY: 793 - 1050

YTUDURIAID: 1485 - 1603

OES FICTORIA: 1837 - 1901

Clicia ar y ddolen hon i weld llinell amser Wrecsam o'r 1800au ymlaen:

https://www.wrexham.gov.uk/english/heritage/online_resources/wrexham_history_timeline.htm

Beth am greu llinell amser ar gyfer dy ardal, bentref neu hyd yn oed dy stryd di?